Cyfres yr 20fed Ganrif

RHYDDID GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 18 Rhif 10.] HYDREF 1918. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Ar Edyn Feydd.
Maddeuant Pechodau.
"At Half Mast."—T.O.W.
"Casgliad o Emynau a Thonau."
Paul ar Fryn Mawrth.
Yr Enwadau Efengylaidd.
Priodasau.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.
Congl yr Awen.
Colofn y Golygydd.



Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandysul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gobeb iaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Mourning Cards . . .

Neatly executed.

A Speciality in Portrait Printing.

Samples sent on application.

J. D. LEWIS, YMOFYNYDD OFFICE, LLANDYSSUL.

CYFRES Y FIL.

Yn cynhwys y cyfrolau canlynol :—

MYNYDDOG	CERRIG Y RHYD . . .
SION CENT	GWAITH GLANYGORS .
GWILYM MARLES . .	ROBERT OWEN . . . .
ALUN	GWAITH ANN GRIFFITHS.

Pris Swllt. Trwy y Post 1/2.

I'W CAEL O SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD. HYDREF, 1918. [CYF. XVIII. RHIF 10.

AR EDYN FFYDD.

DINYSTR SENNACHERIB.—BYRON.

FEL blaidd ar y gorlan 'r Assyriaid lawr ddeuai,
Mewn porphor ac aur ei fyddin ddysgleiriai ;
A llewyrch ei ffyn oedd fel ser ar y weilgi,
Pan hwyr dreigla'r lasdon ar ddyfnfor Galili.

Fel dail y goedwigfa pan fyddo'r ha'n laswyrdd,
Y llu a'i lumanau oedd yn y diwedydd ;
Fel dail y goedwigfa 'nol chwythu o'r hydre',
Yn wiw a thaenedig y llu oedd y bore.

Waith lled'sai tranc-angel yr awel ei edyn,
Anadlsai wrth basio yn wyneb y gelyn ;
A llygaid y cysgwyr yn oer-farwol elent,
Un waith curai'u c'lonau, a byth ymlonyddent.

A'r march yno orweddai a'i ffroen yn agored,
Ond anadl ei falchder ni wnai trwyddi gerdded ;
Gwyn oedd ar y doneu yr ewyn deheuol,
Ac oer megys dystrych y traethfôr craig-gurol.

Ac yno y marchog oedd lwyd ac anelwig,
Y gwlith ar ei dalcen, y rhwd ar ei lurig ;
Y pebyll o'ent ddistaw, ac unig y lluman,
Ni ddyrchent y ffyn, y cyrn ni udganan'.

A gweddwon Assyria yn uchel wnant gwyno,
A'r delwau 'nheml Baal ynt wedi distrywio ;
A gallu'r cenedl-ddyn heb ergyd y cledda',
A doddod fel ôd yn nhremynt Jehofa.

Chwefror, 1855. GWILYM MARLES.

MADDEUANT PECHODAU.

FOD Duw yn maddeu pechodau yw un o'r erthyglau ffydd a dderbynnir gan bob cangen o'r Eglwys Gristionogol ; ond mae gwahanol farnau ar ystyr a chynnwys y gair maddeuant, ac hefyd ynghylch yr amodau y rhaid i ddyn eu cyflawni cyn y gwna Duw faddeu iddo.

Nid anniddorol yw ystyr a defnydd y gair " maddeu " yn llenyddiaeth Cymru, rai canrifoedd yn ol. " Maddau Duw er meddu da," meddai Gutun Owain, sef *gadael* Duw er mwyn elw bydol. " Maddeuesont eu rhwydau," meddai W. Salesbury, am y disgyblion yn *gadael* eu rhwydau. Ym mha ystyr y gellir dweyd fod Duw yn maddeu (gadael) pechod dyn nis gwn yn iawn. Mae'n dra thebyg mai ei adael o gof neu o gyfrif feddylir.

BETH YW PECHOD?

Tybiaf fod yr hen gred mewn pechod gwreiddiol oherwydd cwymp Adda ar ddiflannu o'n plith. Yr unig ystyr allaf fi roddi i " bechod gwreiddiol " yw fod pob dyn yn agored ac yn dueddol i bechu ; a'r rheswm yw mai araf iawn y gwna'r natur ddynol fwrw'r anifail allan o'i chalon a'i henaid.

Wrth bechod golygwn ni heddyw waith dyn yn gwneud drwg o'i wirfodd, er ei fod yn gwybod beth yw daioni, ac yn clywed llais dyledswydd yn galw arno i ymwrthod a'r drwg a gwneud yr hyn sydd dda. Nid yw'r dyn wna ddrwg mewn anwybodaeth yn gyfrifol am y weithred, er fod gwirionedd yn syniad yr hen athronwyr, y gall dyn fod yn gyfrifol am yr anwybodaeth a berodd iddo wneud drwg. Os yr esgeulusa dyn ei gyfleusterau i ddysgu'r gwahaniaeth rhwng da a drwg, y mae yn anuniongyrchol gyfrifol am y drwg a wna. Y mae pob esgeulustod o'r fath yn bechod. Dug hyn ni at y pwnc o

RYDDID YR EWYLLYS,

a phwnc dyrys ydyw. Mae rheswm a phrofiad yn ein dysgu fod Duw wedi rhoddi i ni allu i reoli manylion ein bywydau. Gwir fod terfynau i'r gallu yma oherwydd cylchynir ein bywydau gan alluoedd nas medrwn ni eu rheoli, ac y mae gan rai dynion fwy o allu hunanlywodraethol na'r lleill. Hefyd, amrywia nifer a nerth nwydau isaf y natur ddynol mewn gwahanol bersonau. Nid ydym yn gyfrifol am y cyneddfau etifeddasom cyn ein geni. Nid ydym ond yn rhannol gyfrifol am y dylanwadau moesol ac ysbrydol a effeithiant arnom drwy gydol bywyd ; ond yr ydym yn gyfrifol am y defnydd a wnawn

o'n doniau a'n cyfleusterau, pa un ai llawer neu ychydig ydynt. I bob bywyd dynol y mae cylch cul neu eang lle y gall yr ewyllys weithredu er da neu er drwg. Nid yw'r athroniaeth sydd yn ein dysgu mai offeryn diymadferth etifeddiaeth ac amgylchynedd yw dyn ond anwiredd haerllug, ac enllib ar fawredd a dwyfoldeb y natur ddynol—rhyw fath o wely plu ydyw i bechadur a chydwybod euog. Beth, ynte, yw

YSTYR MADDEUANT?

Cymerwn ddarlun o'r byd anianol. Ceir ambell ddyn o gyfansoddiad cawraidd ac iechyd perffaith yn troseddu deddfau natur ar ei gyfer, drwy ormodiaith ddifrifol mewn bwyta ac yfed, neu esgeulustod truenus o'i gorff yn y gwlaw a'r oerfel. Fe ddeil natur gadarn y gamdriniaeth am dro, ond yn hwyr neu yn hwyrach ymollwng sylfeini'r cyfansoddiad, daw afiechyd a phoen. Nid yw poenau afiechyd ond rhybudd i ddyn fod rhywbeth allan o le, a'i bod yn bryd iddo symud y drwg. Gwaethyga'r afiechyd hyd oni edy'r claf ei gyfeilíorni ac ufuddhau o hono i ddeddfau natur, sef deddfau Duw. Yna, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, dechreua gwellhad, er y dichon adferiad cyflwyr fod yn beth araf iawn. A siarad mewn dameg, gellir dweyd fod natur yn maddeu i'r claf y funud y gesyd efe ei hun mewn perffaith gydgord a'i deddfau; ond nid yw hyn yn golygu y ca'r claf ryddhad uniongyrchol oddiwrth ganlyniadau ei fywyd gorffennol. Ni fyddai hynny ond temtasiwn iddo i droseddu'n fuan eilwaith. Yn yr olwg hon ynte, maddeuant yw'r rhinwedd iachaol gyfranna natur i'r troseddwr wedi iddo adael ei gyfeilíorni ac ymostwng yn llwyr i'w deddfau hi.

Credaf fod y darlun hwn yn mynegi'n lled gywir fel y gweithreda maddeuant yn

Y BYD MOESOL AC YSBRYDOL.

Nid yw pechod ond afiechyd moesol ac ysbrydol—dyn wedi troseddu yn erbyn y deddfau dwyfol, wedi torri'r cysylltiad rhwng ei enaid a Duw, ffynhonell pob gras, rhinwedd a dedwyddwch. Y canlyniad, oni fydd yr enaid wedi ei barlysu'n hollol, yw poen ac anghysur—rhyw grwydro anorffwys yn anialwch y byd. Mae edifeirwch y pechadur a maddeuant Duw iddo yn dynodi dechreu cyfnod o adferiad; yr enaid yn dychwelyd i'r berthynas iawn a Duw, ac yn derbyn, mewn canlyniad, ddylanwadau gras, cariad a chysur. Ni ddileir canlyniadau pechod ar unwaith. Bydd cydwybod yn dolurio, ac nis gall Duw wared rhag hyn heb ddileu pob cof am y gorffennol ym meddwl y pechadur; ond bydd gras Duw a'i nawdd yn gryfach na'r dolur. Nid yw poen y pechadur edifeiriol ond effeithiau anocheladwy y tân purol sydd yn llosgi'r drwg a'r creithiau allan o'r enaid.

MAE DUW YN COSBI,

ond amcan cosb yw diwygio'r pechadur, nid ymddial arno. Nis gallaf gredu mewn cosbedigaeth dragwyddol i bechadur edifeiriol. Pe medrwn ddychmygu un pechadur yn parhau yn anedifeiriol yn dragywydd, yna gallwn gredu fod cosbedigaeth dragwyddol i'w gweinyddu i hwnw, oherwydd mae cyfiawnder a lles y pechadur yn gofyn i'r gosb barhau tra pery'r pechod. Mae edifeirwch yn golygu nid yn unig deimladau drylliog oherwydd y pechod a gyflawnwyd, ond hefyd ymdrech i wneud iawn am bob anghyfiawnder a wnaed. Ofer yw gofyn maddeuant Duw cyn unioni'r cam wnaed a chyd-ddyn.

Gair ymhellach am

FADDEUANT DYN I'W GYD-DDYN.

Dro yn ol, ysgrifennodd milwr o faes y gâd ataf i ofyn a allwn ni, fel cenedl, *fyth* faddeu i'r Almaenwyr yr erchyllterau a wnaethant. Dyna gwestiwn pwysig, ond y mae'r ateb yn hollol glir i mi. Y mae *byth* yn golygu cyfnod hir iawn, a byddai yn ddrwg gennyf glywed am un genedl yn tyngu gelyniaeth *fythol* at genedl arall; ni fyddai hynny ond melltithio plant sydd eto heb eu geni. Credaf mai ychydig o'r dyhirod fu'n treisio ac yn llofruddio yn Belgium sydd ar dir y byw heddyw. Gadawer iddynt ateb am eu herchyllterau o flaen brawdle Duw, ac na ato Duw i ni gondemnio'r dieuog.

Trown ein golygon yn ol i'r amser ofnadwy gynt pan y goresgynodd y Saeson yr ynys hon. Gwelaf, mewn dychymyg, lawer hen Gymro yn wylo'n chwerw ar y mynyddoedd di-gysgod, a'i galon yn llosgi gan ddigofaint cyfiawn oherwydd bod ei gartref, ei wraig a'i blant wedi syrthio'n aberth i dân a chledd y gelyn. Ai ni thyngodd y Cymry y pryd hwnnw lawer llw o elyniaeth fythol at y Saeson? Nid yn gwbl ddiachos ychwaith. Gaurif yn ol, ai ni thyngwyd llwon cyffelyb yn y wlad hon yn erbyn Napoleon a'r Ffrancod? Ai ni wnaeth y Boeriaid yr un peth yng nghof yr oes hon? Erbyn heddyw mae'r llwon ffol hynny wedi eu anghofio, a'r gwledydd a ennwyd yn ymladd ochr yn ochr yn erbyn perygl y byd. Pwy wyr beth a ddigwydd yn y dyfodol agos?

Y mae gormod o'r dwyfol yng nghalon dyn i gadw gelyniaeth fythol at arall, pan fyddo achos yr elyniaeth wedi ei symud. Oni ddywedodd yr Iesu wrthym am faddeu, nid seithwaith, ond saith dengwaith? Fel Cristionogion nis gallwn wneud dim arall. Yr unig gwestiwn yw pa hyd y parha achos cyfiawn o elyniaeth rhyngom ni a'r Almaenwyr?

AR BA AMODAU

y gallwn ni faddeu i'r gelyn-ddyn? Yr amod gyntaf yw edifeirwch llwyr ar ei ran ef. Yr ail yw adduned onest a phendant i wneud

iawn am y drwg a wnaeth nes byddo cyfiawnder wedi ei fodloni; a'r drydedd yw ymrwymiad i fyw'n heddychol a dichlynaidd yn y dyfodol. Pe gwelem argoelion edifeirwch, newidiai ein teimlad tuag at y gelyn yn rhyfedd.

Ar hyn o bryd dyma'r sefyllfa: nid yw'r gelyn wedi arddangos un arwydd o edifeirwch, nac wedi mynegi un bwriad i wneud iawn am y drwg a wnaeth. Mewn gair, nid yw yn gofyn am faddeuant, gan hynny nid yw'r cwestiwn o faddeu iddo yn bwnc ymarferol.

MEUDWY.

"AT HALF MAST."

O gymryd tro trwy'r wig yn yr Hydref, y mae rhyw brudd-der yn llanw'r galon, a chredaf fod anian yn cydymdeimlo a dyn mewn ysbryd o hiraeth. Dristed yw gweled y dail yn syrthio ac anian yn heneiddio. Euthum allan o ferw'r dref er cael cydymdeimlad anian, oherwydd yr oedd tristwch yn fy nghalon o ddarllain cyfrol fechan, "Dan yr Helyg."* Y mae'r blodau wedi gwywo. Y mae'r brwyn yn bendrist. Y mae'r helyg yn plygu er gweled eu llun yn nhonnau Teifi, a'r hen afon yn unig yn ymhoywi yn y gaeaf.

Y mae angau a'i bladur yn torri blodau'r oes gan yrru lluoedd i'w bedd cynnar, ac y mae dynoliaeth heddyw "dan yr helyg," a doi'r gofyniad i minnau, ai darlun o ddynoliaeth yw Teifi? A ydyw dynoliaeth yn ymhoywi yn y gaeaf? Ai gwir gweledigaeth y bardd?

"Ysbryd gwlad! os bradog lu
Câs lwyth fu'n ceisio'i lethu,
Iddo trwy hyn ni ddaw tranc,
Heb ddiwedd y bydd ieuanc."

O gerdded ymlaen a thristwch a llawenydd, gobaith a phryder yn ymrithio trwy fy meddwl, ac adlais cân o "Dan yr Helyg" yn nofio fel gwawn ataf, cyfarfum a hen wraig. Fyrred oedd ei cham ac arafed ei cherdded. Plethasai gofid ei gwallt ag arian, ac yr oedd yn gwargrymu fel y cangau. "Paham y gwargrymai"? gofynnais i mi fy hun. Tybiais mai pwys henaint ydoedd, ond nid felly, oherwydd yr oedd y gangen îr yn gostwng ei phen. Clybum lawer o son am Dir Ieuenctid! Ai chwilio ydoedd pawb a phopeth am eu cynefin? Maes o law, ymlwybrais heibio i fwthyn lle yr oedd cyfoed ieuanc yn dihoeni. Ddoe chwarddai'n iach, heddyw nid oes ond cysgod gwên ar ei wyneb. Gynt yr oedd yn unionsyth; yn awr y mae'n gwargrymu'n gyflym. Dyellais! Nid henaint mohono, a chofiais gydag ias oer am ostwng y lluman. Tybed a erys "*At Half Mast.*"

* * * *

O droi adref, y mae'r niwl wedi

*"Dan yr Helyg"—Lieut. Gwilym Williams, B.A., a syrthiodd yn Ffrainc.

câu am y dref. Mor ddistaw yw'r heolydd ac mor wâg. Ni chlywir mwyach y chwerthin iach yng nghanol dadwrdd masnach. Y mae yna rhyw brudd-der ymhob bron. Clywir cerddediad yn dynesu ond ni welir mo'r ffurf ond megis breuddwyd anelwig. Cura'r llythyrgludydd yn dawelach nag arfer i'm tyb i. O gyfarch cyfaill, y mae prudd-der a thristwch yn ei lais. Nid oes hwyl na hamdden at ddim. Y mae rhywbeth llethol wedi disgyn ar y dref, oerach a thrymach na'r niwl. Y mae rhyw gyfrinach ddrud a thrist wedi'i dadlennu a minnau'n methu ei dyfalu. Ar amrantiad dyellais! Trois fy ngolwg i gyfeiriad arall ac yr oedd y lluman "*At Half Mast.*"

Ehedodd fy meddwl i dir ieuenctid ac at gyfoed arall a syrthiodd draw. Mor ddu yw'r wybren! Mor drwm y ddyrnod! Y mae môr o ofid a hiraeth wedi torri ar ryw gartref bychan, a phobun yn dal ei anadl gan ofyn "Pwy Nesaf?"

Dristed yw geiriau Gwilym, ac mor wir am dano ei hun bellach—

"Heb rodres wedi'r brwydro
Erys a chroes uwch ei ro."

* * * *

Ymwelais a'r bwthyn lle yr oedd y fam yn wylo ei chalon am ei bachgen heb neb yn medru ei chusuro. Estynai i mi ei lythyr olaf a llaw grynedig. Mor euog y teimlwn wrth ddarllain ei eiriau olaf i'w fam cyn canu'n iach. Mor ddibryder oedd ef: mor hiraethlon yw'r fam. Adroddai imi hanes ei fywyd ieuanc ac arweiniai fi i'w chysegr santeiddiolaf. Mor garedig! Mor ymroddgar! Mor fyw i'w chynorthwyo a hithau yn ei dagrau yn ei weled yn blentyn ieuanc ar ei glin, ac yn tyfu i fyny yn nodded a chefn iddi.

"Mor wahanol i'm gobaith yw hyn," meddai, gan wasgu y llythyr yn ei llaw, a chan dorri i wylo'n hidl ar y bwrdd. Cofiais am y nofel honno, "*When it was dark?*" Yr oedd yn dywyll, dywyll ar y fam honno! Nid oedd gannyf innau un gair o gysur i roddi iddi, ond rhois fy llaw ar ei hysgwydd a dyallodd. Yr oedd pwys y llaw hyd yn oed yn siarad cyfrolau o gydymdeimlad, a throis innau ymaith yn drist, a'i chalon hithau yn friw oherwydd yn y bwthyn yr oedd y lluman "*At Half Mast*"

* * * *

Pwy na bu cyn hyn yn sefyll uwchben bedd agored, a'i galon yn gwaedu. Y mae gobaith yn cefnu. Nid oes gysur y diwrnod oer hwnnw. Y mae'r golwg i waered. Hoffwn pe tae'r adar yn peidio a chanu, a phe cuddiai'r haul ei wyneb. Paham? Y mae'r lluman "*At Half Mast.*" Ond pe troisem ato wedi i amser guddio'r graith gallasem ninnau ddywedyd:

"Then to the grave I turned me to
see what therein lay;
'Twas the garment of the Christian,
worn out and thrown away."

Y mae'r lluman heddyw bob amser o flaen ein llygaid, a phe gofynnid imi, "Paham yr wylo a'r dagrau? Paham y gofid a'r pryder?" nid oes gennyf ond cyfeirio'n drist at y lluman, mewn pryder, gan adael i'r ochenaid ddywedyd yn ddistaw—"*At Half Mast.*"

T. O. W.

"CASGLIAD O EMYNAU A THONAU."

Yn yr "YMOFYNVDD" am mis Awst y mae gan ohebwr adolygiad, neu yn hytrach feirniadaeth lem ar y "Casgliad o Emynau a Thonau" at wasanaeth Cymanfaoedd Cerddorol Undodiaid Ceredigion.

Nid oes dim yn fwy diddorol na beirniadaeth neu adolygiad ar unrhyw lyfr neu ysgrif, am fod hynny yn peru i un feddwl, ystyried a barnu yn ol ei syniadau ei hunan. Felly, yr wyf yn teimlo yn dra diolchgar i'r adolygwr am ei "adolygiad."

Y mae ei ysgrif yn profi ei fod yn meddu ar wroldeb tuhwnt i'r cyffredin neu ni fuasai wedi ysgrifenu mor bendant a therfynol, a hynny yn hollol yn ol ei chwaeth ei hun. Nid yw yn rhoddi yr ystyriaeth leiaf i farn neb arall. Trueni na fyddai'r eglwysi yn gwybod am dano mewn pryd iddynt gael ei ddewis yn lle'r pwyllgor, gan fod holl wybodaeth a galluoedd y corph hwnnw, yn ol y dystiolaeth a roddir ganddo yn ei adolygiad, wedi ymgorphori ynddo ef. Gwnai ei ethol fel pwyllgor arbed llawer o drafferth, traul ac amser.

Nid ein amcan wrth ysgrifenu yw ceisio profi ei fod yn gywir neu yn anghywir, ond dangos ei fod yn hollol amddifad o'r defnyddiau hynny sydd yn anhebgorol angenrheidiol mewn beirniad neu adolygwr teg a gonest ei farn, sef rhyddid barn i eraill. Meddylier am unigolyn yn gosod ei hun yn erbyn y pwyllgor, aelodau yr hwn yn ddiameu oeddent bersonau dysgedig, gwybodus a phrofiadol.

Fel mewn cysylltiad a phob peth arall nid yr unrhyw donau sydd yn ysprydoli pawb, nac ychwaith yr unrhyw emynau sydd yn swyno pawb. Dylasai yr adolygwr cyn rhuthro i feirniadu'r pwyllgor fod wedi cael golwg mwy eang ar ogoniant amrywiaeth mewn chwaeth a thueddiadau. Methwn wel'd dim yn amgenach yn sylwadau'r beirniad na beirniadaeth ormesol (*despotic criticism*). Credwn mai amcan y pwyllgor oedd dewis tonau ac emynau a fyddai yn gydnaws a chwaeth, tueddiadau a barnau y mwyafrif o'r cantorion ac eraill, ac nid ystyried unigolion fel yr adolygwr.

A ydyw'r adolygwr erioed wedi ystyried y pysgotwr, yr hwn os ydyw yn deall y gelfyddyd yn iawn sydd bob amser yn defnyddio plyfyn sydd yn gydwedd a lliw'r dwr? Yr un modd y mae pysgotwyr dynion yn ceisio ar eu gore i bregethu a threfnu caniadaeth y cysegr yn y fath fodd fel ag i ddenu ac ennill dynion o wahanol deimladau a thueddiadau at yr hyn sydd dderchafol. Tebyg fod yr adolygwr pan ar ei deithiau ar hyd a lled y wlad, wedi dyfod i gyffyrddiad a milwyr "Byddin yr Iachawdwriaeth,"—pysgotwyr dynion o'r iawn ryw ydynt hwy, ac y maent yn deall y natur ddynol i'r dim. Pa fath donau y maent hwy yn ganu ar gonglau'r heolydd yn y trefydd mawrion, er mwyn adenill y tyngwr a'r meddwyn? Ai nid ydyw wedi eu clywed yn canu gydag arddeliad digymysg donau pen ffair, y rhai yn gyffredin a genir ar y geiriau "Annie Rooney," a'r "The girl I left behind me?" Ac yr ydym yn gallu dwyn tystiolaeth fod y tonau yma wedi bod yn foddion troedigaeth i ganoedd o feddwon.

Yr hyn sydd luniaeth i un sydd wenwyn i'r llall. Ond nid yw athroniaeth adolygwr wedi esgyn yn ddigon uchel i ganfod y pethau hyn waith y mae un gosodiad o'i eiddo yn profi hyn, sef, "Y mae llawer o donau a genir yn hollol anaddas i awyrgylch eglwys a chapel, ond nid yw holl bwyllgorau cymanfaoedd eto yn gwybod y gwahaniaeth rhwng canu cysegredig a chanu pen ffair." Druan o hono, pe bae yn ysgrifenu fel un *meidrol* gwnawn ymdrech deg i'w argyhoeddi, a dangos iddo effeithiau

gwahanol ansoddau ar wahanol bersonau.

Mae ef yn peri i mi feddwl am y wenol, yr hon os digwydd iddi ddisgyn ar y llawr nis gall godi drachefn, am fod gormod hyd yn ei hadenydd, ac oherwydd hynny yn methu cael digon o *elbow room* iddynt pan ar y llawr. Felly yntau, y mae wedi disgyn ar y pwyllgor, ac y mae yn methu codi yn uwch nag ef ei hun i gael golwg eangach ar bethau na hynny, am fod ei dybiaeth am ei gymhwysderau ei hun yn hirach o dipyn nag y dylent fod.

Canmolir y pwyllgor ganddo am fabwysiadu'r orgraff newydd. Yn ein barn ni nid yw hynny yn fater enaid na bywyd tragwyddol. Tueddaf i gredu mai cyfeiriad atto ef sydd yn Num. xxiv: 16: "Gwybedydd gwybodaeth y Goruchaf, a gweledydd gweledigaeth yr Hollalluog yr hwn a syrthiodd."

CARDI ODDICARTREF.

PAUL AR FRYN MAWRTH.

"Canys wrth ddyfod heibio, ac edrych ar eich defosiynau, mi a gefais allor yn yr hon yr ysgrifenasid, I'R DUW NID ADWAENIR. Yr hwn gan hynny yr ydych chwi heb ei adnabod yn ei addoli, hwnnw yr wyf fi yn ei fynegi i chwi."—Actau xvii. 23.

Flynyddau meithion yn ol mi gefais y fraint a'r pleser mawr o o esgyn y grisiau hynny, rhyw un ar bymtheg mewn rhif, neu'r hyn oedd yn aros o honynt, ar hyd y rhai yr aeth Paul i fyny i'r Areopagus, ac yno i feddwl a myfyrio a cheisio sylweddoli'r sefyllfa.

Ac yn awr yr wyf am i chwi wneud ymdrech mewn dychymyg i bontio'r canrifoedd gyda mi, a sefyll yn ymyl Paul tra mae'n traethu ei genadwri. Meddyliwn pa fath bethau rhyfedd a allai fod yn heidio ar ei feddwl—Bryn Mawrth, yr Areopagus. A ydyw disgybl Gamaliel yn gwybod ei hanes rhyfeddol? Derbyniodd y bryn ei enw oddiwrth y chwedl i Ares, neu Mawrth—duw rhyfel—gael ei alw i gyfrif a'i farnu gerbron y duwiau am ladd mab i Neptune neu Neifion—duw'r môr. Yma yn ddiweddarach, y darfu i Solon, un o seithwyr doethion Groeg sefydlu Llys, yr hwn a gynhaliwyd am flynyddau lawer, a gelwid yr aelodau yn Areopagitiaid. Eisteddai y Llys hwn yn y nôs, yn yr awyr agored, ar seddau cerrig, yn debyg i'r rhai ellir eu gweld heddyw yn chwareufa (*theatre*) Dionysius yn Athen; ac yr oedd mor enwog am ei amhleidgarwch fel yr oedd gwledydd tramor yn cyrchu yno ac yn dewis y Llys fel canolwr.

Mae yn bwnc o ddadl pa un a oedd yr amgylchiad presennol yn un yn gofyn llys barn neu nad oedd. Tybia'r ysgrifennydd yn yr "Encyclopaedia Biblica" ei fod; ond er iddo ymddangos yn rhyfyg ar fy rhan i i wahaniaethu oddi wrth awdurdod mor enwog, nis gallaf lai na meddwl i Paul gael ei ddwyn i'r Areopagus er mwyn cyfleusdra, nid gan heddgeidwaid y dydd, ond gan rai o'r dorf oedd wedi gwrdd yn flaenorol, y rhai oeddynt yn awyddus i wybod rhyw-

beth am y "ddysg newydd" a draethid ganddo. I rai ni ymddangosai Paul yn ddim amgen na "siaradwr" —clebrwr—un yn hau pethau diwerth; i eraill fel un yn dwyn duwiau dieithr. Eu syniad oedd mai enwau duwiau newydd oedd *Iesu* a'r *Adgyfodiad* (fel y mae yn y Gymraeg), y rhai a bregethai Paul, a'r rhai a dybient hwy ei fod yn dymuno eu dwyn i'w plith. Yn ngwlad Groeg fe godid allorau i ryw feddyldrychau *abstract*, megys Gwyleidddra, Dymuniad, Enwogrwydd, Duwioldeb, ac addolid y rhai hynny. A pha sut y gallent wybod llai na bod Paul am ddwyn iddynt dduw newydd, *Iesu*, a duwies newydd, a duwies newydd, *Unastasis*. Fe deimlid fod hyn yn beth difrifol, peth a allai beryglu addoliad y duwiau sefydledig!

Ac yr oedd Paul mewn dwys fyfyrdod. Yr oedd wedi bod yn cerdded trwy heolydd Athen, dinas a "adwaenid fel llygad Groeg, dyfeisydd llythrennau, goleuni y byd gwareiddiedig," enwog mewn celfyddyd, mewn arfau, llenyddiaeth a llywodraeth. Yr oedd ei phoetau, ei areithwyr, athronwyr, gwladweinwyr, yn syndod yr oesau. Dinas Socrates a Plato, Aristotl a Demosthenes, ni ellir byth ei anghofio. Synnir y teithiwr hyd heddyw gan brydferthwch ac ardderchowgrwydd adfeilion ei themlau a'i hamrywiol gelfyddwaith eraill. Yr oedd hefyd yn grefyddol hyd waelodion ei natur.

Ebe Josephus, "Yr Atheniaid yw y rhai mwyaf duwiol o'r holl Roegiaid"; ebe Pansanias, "Mae gan Athen fwy o ddelwau na'r gweddill o wlad Groeg"; ac ebe Petronius, "Mae'r ddinas mor llawn o dduwiau fel y mae'n fwy hawdd dod o hyd i dduw na dod o hyd i ddyn"; "Wedi ymroi i eilunod" yw y geiriau yn llyfr yr Actau. Nid rhyfedd os oedd meddwl Paul wedi ei gynhyrfu i gymysg deimlad o ddiglonedd a thosturi. Mewn gair, yr oedd Athen yn ganolfan eilunaddoliaeth a ymwisgai yn mha gymaint o geinder a dhrydferthwch a swyn a ellid ei gyn-yrchu gan athrylith cyfunedig arluniaeth, cerfluniaeth, adeiladaeth, athroniaeth a phrydyddiaeth.

Heblaw hyuny, nid adwaen Hanes na dinas na gwlad, yn ol maint ei phoblogaeth sydd wedi rhoddi i'r byd nifer cymaint o ddynion gwir fawr yn ngwahanol ganghennau gwybodaeth, dynion bydenwog, ac Athen. Mae'r diweddar Archesgob Frederick Temple yn dwyn ar gof i ni yn ei draethawd dyddorol, yn yr "Essays and Reviews"—llyfr a barodd ddychryn ofnadwy yn rhai o'r eglwysi uniongred tua 50 neu 60 mlynedd yn ol, fod un o'r tair ffrwd fawr a gyfranasant fwyaf tuag at wareiddiad diweddar yn dylifo o wlad Groeg; ac eto er cymaint disgleirdeb ei deall, a'i chyfoeth mewn gwybodaeth methodd y Groegwr weld nad duwiau 'mo rhai hynny a wneir a dwylaw. I'r Iuddew dirmygedig y rhoddwyd i ddarganfod ac i bregethu mai Un yw Duw—mai un Gallu, un Deall, un Ewyllys, un Duw yw'r Gallu sy'n gweithredu y tu hwnt i ganfyddiad ein synwyrau.

Nid yn fynych y mae yn syrthio i ran unrhyw lefarwr i annerch

CYNULLEIDFA

mor gymysg, ac hefyd mor amddifad o gydymdeimlad a'r un a wynebai Paul ar yr amgylchiad dan sylw. Yr oedd wedi bod yn dadleu a rhai o honynt eisioes yn y Synagog, a chydag eraill yn y farchnad, ac wrth ddod ar hyd yr heol yr oedd wedi cyfarfod "a rhai o'r philosophyddion a'r Epicuriaid ac o'r Stoiciaid," dynion wedi eu trwytho a rhagfarn, yn gaethion i hunanoldeb ac anwybodaeth, yn cau eu llygaid yn erbyn pob pelydryn o wybodaeth newydd: "Y clebrwr hwn yn wir, beth all fod gan hwn i'w ddweyd wrthym!" Rhywbeth tebyg i hynyna fyddai eu geiriau dirmygus, ac eto yr oedd eu cywreinrwydd cynhenid yn eu gyru i'w ddilyn. Y cyfryw yw'r gwrandawyr, ac yn awr a gawn ni edrych at

Y PREGETHWR.

I bwy neu i beth y mae'n debyg? Sut y mae'n ymarweddu yn ei sefyllfa ddieithr? A ydyw yn ofnus neu bryderus? Pwy all ddweyd? Dichon ei fod. Dyna gyflwr llefarwr yn fynych pan mewn sefyllfa anarferol. Sicr yw, pe na fyddai yn feistr ar ei bwnc, ac wedi ei lanw a brwdfrydedd dynoliaeth, ni allasai godi mor rhwydd i fyny i urddas a mawredd yr achlysur. Ond nid yw'r bai yn gorffwys gydag ef, ac nid yw chwaith yn yr had y mae'n awyddus i'w hau. Mae'r had yn dda; mae bywyd ynddo; mae'n meddu gallu dirfawr i ymledaenu, os ceir tir addas iddo. Gesyd y pregethwr ei hunan mewn cyffyrddiad teleffonaidd a'i Feistr. Mae'n craffu ar ei wrandawyr drosodd a throsodd. Mae ei galon yn llawn hyd at redeg drosodd; ond eto ac eto trŷ ei wyneb i ffwrdd mewn anobaith. Nid oes yna ddim ysprydoliaeth, dim dyfodfa i'r un gair o eiddo'r Iuddew dirmygedig.

"'Does neb mor ddall a'r rhai ni fynnant weled; mor fyddar neb a'r rhai ni fynnant glywed." O, fel y carai droi arnynt y fath ffrwd boeth o gydymdeimlad Cristionogol ac o gariad brawdol ag a wnai doddi peth ar eu rhagfarnau pegynol a'u difaterwch Laodiceaidd, a'u hunanoldeb afresymol.

Er mwyn sicrhau fod unrhyw dda yn deilliaw mae'n angenrheidiol fod yna ryw radd o gydymdeimlad rhwng y llefarwr a'r gwrandawr. Ond beth mae Paul yn ei gael? Nid yw dysgybl Epicurus fel mae efe'n ei gael ond cynrychiolydd dirywiedig iawn o athronydd ardderchog y dyddiau gynt. Ni wnai Epicurus adwaen na chymeradwyo addysg ei ganlynwyr. Mae'n wir eu bod yn cytuno mewn enw. Gosodant y *summum bonum*, daioni uwchaf y byd, mewn Pleser; ond pan ddelont i esponio fe'u ceid mor bell a'r pegynau oddiwrth eu gilydd. Wrth bleser golygai Epicurus foddhad y meddwl, a'r meddiant o dymer rinweddol a boddlawn. Bu efe ei hun am fyw bywyd glân o burdeb ac o rinwedd manwl. Darfu i'w ddysgyblion, fodd bynnag, wyrdroi ei addysg i benrhyddid pleserau anianol, ac heddyw y mae Epicuriaid yn golygu un yn ymroddi i lythineb.

Cymerwn enghraifft arall: Dysgai Zēno y Stoiciad y ddyledswydd o wrteithio anheimladrwydd i boen, fod y nwydau a'r serchiadau i'w cadw o dan lywodraeth briodol; fod deddwyddwch yn gorffwys mewn rhinwedd, a'i bod yn hunan-wobrwyedig, neu yn wobr ynddi ei hunan; fod Duw wedi creu y byd, ond fod y byd o dan lywodraeth rheidrwydd; ond yn amser Paul, dri chan' mlynedd yn ddiweddarach, yr oedd y ddwy gyfundrefn wedi eu llygru a'u newid fel y byddai'n anodd i Paul ddyfod i gyffyrddiad a hwynt o gwbl; ac hyd yn oed gyda'u gydwladwyr eu hunan ni chaffai fawr cydymdeimlad. *Fel Iuddewon*, ymffrostient eu bod hwy yn blant i Abraham; ond copiau tlawd oeddynt o ddelfrydau Abraham, ac o waith Abraham. Y cyfryw, mor bell ag y gallwn ni farnu oedd y tir i'r hwn yr oedd Paul ar fwrw yr hâd Cristionogol: a rhaid yw cyffesu fod y cynauaf, i bob ymddangosiad, yn debyg o droi allan yn dlawd, ac ymweliad Paul ag Athen brofi yn fethiant hollol. Nid oedd y rhai "crefyddol" a sonir am danynt ond ychydig mewn nifer, ac nid oedd eu dylanwad yn ddigon i sefydlu achos Cristnogol yn Athen. I'm meddwl i y mae hwn yn bwnc dyddorol. Paham nad ydym yn clywed am epistol yr Apostol Paul at yr Atheniaid, tra mae genym ddau at y Corinthiaid. Fe ddichon fod gan yr Atheniaid fwy o ben, ond yr oedd gan y Corinthiaid fwy o galon. Er mwyn credu, mewn ystyr grefyddol, rhaid i ni yn gyntaf garu. Os yw y Deall a'r Rheswm yn arglwyddiaethu yn ormodol yn mywyd ymarferol crefydd, fe geir eu bod yn rhy fynych yn glanio dyn mewn *cul de sac*, neu ffordd bengaead, ar yr hon y ceir yr ysgrifen, "*no thoroughfare*"—dim tramwyfa. Mae Paul yn iawn pan y dywed, "a'r galon y credir i gyfiawnder." "Fel yr oedd yn y dechreu, felly y mae yr awr hon." Nid oes angen cwblhau y frawddeg; ond pa beth feddyliwn

ni am ddyn heddyw, a gyfrifid yn athronydd, yn gwneuthur yr baeriad : Fod y nefoedd yn dadgan gogoniant, nid Duw, ond Lyr Isaac Newton, gan anghofio na wnaeth Syr Isaac ddim ond dadguddio'r nefoedd, yr oedd y gogoniant yno'n flaenorol ; neu, eto, beth feddyliwn am yr enwog arall hwnnw a wnaeth yr ymffrost ynfyd, ei fod wedi ysgubo'r nefoedd a'i bellwelyr (*telescope*), ac nad oedd wedi gweld Duw yn unman, na'r tŷ yr oedd yn byw ynddo ; neu beth a ddywedwn ni am Ernest Haeckel, un o wyddonwyr mawr y dydd, yn awr yn ei henaint, ni ddywedwn yn ei benwendid, yn parhau i ddweyd ei fod gyda'i bwyodr a'i grochan (*pestle and mortar*) wedi chwilfriwio tri eilun mawr y duwinydd, sef, personoliaeth Duw, rhyddid yr ewyllys, ac anfarwoldeb yr enaid. Mae'r brenin wedi marw, byw byth fo'r brenin ! Beth gawn ni ddweyd am ddynion o'r fath hyn ? heblaw eu bod yn ymddangos yn ddall ar yr ochr grefyddol—math o gopi ydynt o Peter Bell—

"Brialli'n tyfu'n ymyl dwr,
Brialli melyn oedd i'r gwr,
Ac nid oedd ddim ond hynny !"

Fe fu boneddwr a ddesgrifiai ei hunan fel un oedd wedi bod yn offeiriad am un flynedd ar bymtheg, ar ymweliad ag Aberdar ychydig flynyddau'n ol, ac yn darlithio ar yr hyn y gwelodd bod yn dda i'w galw yn "*Mistakes of Moses*." Nid yw yn achos syndod i ni fod Ingersoll wedi bod yn darlithio ar yr un pwnc rai blynyddau'n flaenorol. Nid oedd Ingersoll yn ddim ond cyfreithiwr ; ond fod offeiriad, un y gallwn gasglu ei fod wedi derbyn addysg golegol yn gwneud hynny, nid yw ond yn amlygu ei ddiffyg gallu a'i anwybodaeth o'r pynciau hynny y dylai fod yn feistr arnynt. *Mistakes of Moses*, yn wir ! ac yn mha le, tybed, y cafodd afael arnynt. Tybiodd Ingersoll iddo gael gafael ynddynt yn y Pentateuch, ond fe wyr ysgolheigion heddyw, ac addefant nad oedd dim a fynnai Moses a'r Pentateuch yn fwy nag oedd a fynnai'r plentyn lleiaf ag ef.

Ond caniataer fod Moses wedi gwneud camsyniadau, nid yw yn canlyn, fel y tybiai rhai o'r bobl ieuainc a aethant i wrandaw ar y darlithydd, fod hynny yn profi nad yw pob crefydd ond ffug, neu nad oes yr un Duw, yr un nefoedd, yr un uffern ; neu nad yw geiriau Paul ddim yn wir : "Pa beth bynnag a hauo dyn, hynny hefyd a fed efe." Os gwnaeth Moses gamsyniadau, nid yw hynny ond yr hyn a wnaeth Gladstone hefyd, a'r hyn a wnaeth Beaconsfield, a phob dyn arall sydd yn werth ei halen. Dyma stori fach : y mae gwyddonwyr hefyd yn gwneud camsyniadau. Aeth dysgybl i fyny at Faraday un tro, ac yn teimlo, feallai, amryw fodfeddi yn dalach nag arfer, a dywedodd, os gwelwch yn dda, syr, 'rwy' wedi cael gwall yn ngweithiau Syr Humphrey Davy. Gwrandawodd Faraday ar y gwr ifanc yn amyneddgar, ac yna cymrodd lyfr oddi ar y silff, a dangosodd fod y gwall wedi ei wella er ys amser hir ; ac yna ychwanegodd yn y modd mwyaf caredig : "Dangoswch i mi ddyn nad yw wedi gwneud gwallau, a dangosaf finnau i chwi ddyn nad yw wedi gwneud fawr ddaioni yn y byd." Ymddengys yn anodd i weld pa gysylltiad sy rhwng camsyniadau Moses, a chaniatau iddo eu gwneud, a'r casgliad tybiedig—nid oes yr un Duw.

"Pa le mae y môr ? medd y pysgod bach,
Tra'n nofio ei ddyfroedd grisialaidd iach ;
Ni glywsom er cynt am ei donnau mawrion,
Ond O, am gael gweld ei ddyfroedd gleision.
Mae'r doethion am eigion y môr yn llefaru ;
Pwy ddwed a oes y fath beth yn bodoli ?

Yr hedydd esgynai ar ben bore bach,
A'i seiniau wasgarent trwy'r awyr iach ;
A hyn oedd ei gân : y goleuni a welaf,
Ar fyd o brydferthion disglaerwych edrychaf :
Ond hedfan a chanu, lle bynnag bo'm antur,
Yn ofer y chwiliaf bob man am yr awyr."

I'w barhau.

YR ENWADAU EFENGYLAIDD.

Bydd o ddyddordeb i ymofyn pa enwadau yw y rhai efengylaidd, a phaham y gelwir hwy wrth yr enw hwnnw? Ystyr efengyl yw newyddion da, a gallwn gasglu fod pregethu Ioan Fedyddiwr yn cynnwys newyddion da (Matt. iii. 2), "Edifarhewch, canys neshaodd teyrnas nefoedd." Rhywbeth tebyg oedd eiddo Iesu (Matt. iv. 17).

Nid yw y gair "efengylaidd" yn digwydd bod yn yr Ysgrythyrau o gwbl ; ond fe ddylai fod perthynas agos rhyngddo â'r "newydd da." Cawn y gair efengylwr ddwy waith, ac efengylwyr unwaith (gweler Actau xxi. 8 ; 2 Tim. iv. 5 ; Ephesiaid iv. 11), a dyna i gyd. Yn fy meddwl i, gorchwyl efengylwr yw pregethu newyddion da. Cymaint a hynna ar yr olwg ysgrythyrol o'r pwnc.

Ond yr wyf am holi beth yw daliadau yr enwadau a honnant yr enw efengylaidd iddynt eu hunain, ac ar ba sail y gwrthodant ef i eraill? Mae'n amlwg nad Newydd Da yw nodwedd amlycaf y cyfryw. Yn eu dwylaw hwy fe berthyn i'r enw ryw ystyr celfol—"some kind of technicality." Hawliant yr enw—o leiaf dyna arferent wneud gynt—ar sail credu yn y Drindod, Pechod Gwreiddiol, Llwyr Lygredd Moesol, Iawn Dirprwyol, Troedigaeth Goruwch-naturiol, Cosp Dragwyddol, ac Anffaeledigrwydd yr Ysgrythyrau. Fe wrthodir yr enw i'r eglwysi hynny a wrthodant unrhyw un o'r rhai hyn. Fe gauir allan yr Undodwr am ei fod yn gwrthod y Drindod ; yr Universaliaid am eu bod yn gwrthod Cosp Dragwyddol ; y Pabyddion, y Swedenborgiaid, a'r Crynwyr (*Quakers*), am eu bod yn gwadu Awdurdod Anffaeledig yr Ysgrythyrau. Mae gan bob enwad hawl fe allai i alw ei hunan wrth yr enw bynnag a fynno, oni fydd ar un pryd, wrth hynny, yn amddifadu eraill o enw y mae ganddynt gymaint hawl iddo a hwythau.

Ond carwn ofyn—gan nad beth fuont unwaith—pa le mae'r enwad sydd heddyw mewn gwir yn dal y syniadau a gynwysir ganddynt yn yr enw efengylaidd? Hefyd carwn ofyn pa un o'r telerau crybwylliedig sy'n cynnwys, neu yn awgrymu megis o bell, y newydd da a olygir wrth y gair efengylaidd? Enwer hwy bob yn un ac un, ac ateber yn onest a difrifol. Eto, a ddarfu i Ioan Fedyddiwr, neu hyd y nod ein Hathraw Iesu, erioed bregethu yr athrawiaethau hynod crybwylliedig? Os na, oni ddylent gael eu gwrthod fel pregethwyr sydd yn syrthio yn fyr o'r hyn a elwir yn efengylaidd? I derfynu, a gaf fi ofyn beth oedd cynnwys eu pregethau pan yn cyhoeddi fod Teyrnas Nefoedd yn neshau.

T.C.U.

PRIODASAU.

AWST 17, yng Nghapel Pantydefaid, gan y Parch. T. Arthur Thomas, Mr. David Davies, Gwarcefel Arms, â Rachel, merch ieuengaf y diweddar Mr. Edward Jones a Mrs. Jones, Ceginanne, Llandyssul. Boed i'r bendithion gore ddilyn yr uniad.

AWST 21, yn Eglwys Ystrad, gan y Ficer, unwyd mewn priodas Mr. John Marsden, Rhydybannau, a Miss Martha Evans, Mynach Arms, Cribyn. Pob hawddfyd fo'n rhan iddynt.

AWST 30, yng Nghapel Brondeifi, gan y Parch. R. C. Jones, ymunwyd Gunner Joseph Gwilym Harnaman, B.E.F., Rhyl, mewn priodas â Miss Hannah Mary Herbert, Peterwell Terrace, Llanbedr.

MARWGOFION.

MEHEFIN 12, yn 22ain mlwydd oed, Preifat John Davies, unig fab Hannah Davies, Abergerdin Cottage, gynt Blaencriborfach. Gwas fferm ydoedd yr ymadawedig, yn y Fadfa, a chyn hynny yng Nghefngwallter, cyn iddo ymuno a'r fyddin. Ar ol tymhor o ymarferiad gyda'r South Wales Borderers, aeth drosodd i Ffrainc, ac yno credwn iddo wneud ei ran, fel y miloedd eraill o'n bechgyn. Bu gartref am dro ddechreu y flwyddyn hon. Dyn ieuanc, gwylaidd, a chalon garedig ydoedd, a phawb o'i gydnabod yn hoff iawn o honno. Y mae colli bachgen ieuanc, addawol, yn ergyd drom i fam, ac erys ei goffadwriaeth yn annwyl gan lu o'i gyfeillion yn Nyffryn Clettwr a mannau eraill. Sul, Awst y 24ain, cynhaliwyd gwasanaeth coffadwriaethol iddo ym Mhantydefaid, lle yr oedd yn aelod. Daeth cynhulliad lliosog ynghyd. Pregethwyd gan y Parch. T. Arthur Thomas, a chynorthwywyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

AWST 16, ar faes y frwydr yn Ffrainc, syrthiodd James Herbert, anwyl fab Thomas ac Elizabeth Herbert, Tangaer, Cribyn, yn 19 oed. Ym mron er y torrodd y rhyfel allan, yr oedd yn awyddus iawn i ymuno â'r fyddin, a dim ond ei oedran a'i rhwystrodd i wneud hynny lawer yn gynt nag y gwnaeth. Hyd yn oed pan yr ymunodd, nid oedd ond newydd basio ei 17eg flwyddyn o'i oedran ; ond trwy daer erfyniad wrth ddrws yr awdurdodau milwrol, caniatawyd iddo ei ddymuniad, i "wneud ei ran fach," ys dywedai ; ac ar ol tua blwyddyn yn Ffrainc, dyma fe wedi gwneud "yr aberth bennaf"—rhoi ei fywyd ar allor ei wlad. Dyma'r nawfed — efallai'r ddegfed — o fechgyn cymydogaeth y Cribyn wedi syrthio — a'r trydydd o fechgyn y Capel. Pobl ieuainc oeddynt i gyd, a'u hamser gore o'u blaen, ac argoelent fod yn ddefnyddiol iawn yn eu gwahanol gylchoedd, a bechgyn o rodiad da. Bachgen ieuanc, llon, siriol, dengar, oedd James, yng nghymeriad yr hwn yr oedd llawer o elfenau dymunol iawn—hawdd ei drin, ufudd, awyddus i foddloni, ymdrechgar, a'r awydd

am wybodaeth yn gryf yn ei natur. Colled annhraethol yw cwympo o ddynion ieuainc o'r fath hyn, pan newydd sangu dros y trothwy i'r byd mawr. I'w deulu -ei rieni, ei chwiorydd, a'i frawd bach—y mae ei gwymp wedi peri blinder dwfn, a chydymdeimlir â hwynt gan gylch eu cydnabyddiaeth. Duw fyddo'n ddiddanwch iddynt yn eu tristwch. Prydnawn Sul, y 15fed o Awst, cynhaliwyd gwasanaeth coffa am dano yn y Capel, pryd y daeth torf liosog yaghyd, er gwaethaf yr hin anffafriol. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Gweinidog, gyda chynorthwy'r Parchn. E. Glyn Edwards ac R. E. Davies, ficer. Yr oedd tair *wreath* ar y bwrdd—un gan y teulu, y lleill gan y Capel a'i athraw (Mr. Griffith), ac yr oedd yr *Union Jack*, fel arfer, wedi ei gosod i fyny wrth ymyl y pwlpud, a'r gwisgoedd ereill (arwyddion o alar) wedi eu gosod ar y pwlpud a'r bwrdd cymundeb. Gwasanaethwyd with yr offeryn cerdd gan Miss Evans, Mynach Arms, yr hon a chwareuodd y *Dead March* ar y terfyn yn hynod o effeithiol.

AWST 19, yn nhy ei mab-yng-nghyfraith a'i merch, David ac Anne Lloyd, Heol y Coleg, Llanbedr, bu farw Mary Davies, merch y diweddar Samuel ac Anne Davies, Glanrafon, Cribyn, yn 78 oed. Am lawer o flynyddau bu mewn gwasanaeth gyda'r diweddar Herbert Davies, Penlan, Hafodwen, Cribyn, a phan y rhoddodd yr olaf y fferm i fyny, ac yr aeth i fyw i Benbont, Silian, aeth hithau gydag ef. Er ei farwolaeth ef, bu yn byw yng nghymydogaeth Silian am beth amser; ond yr oedd, er's blynyddau bellach, wedi symud at ei merch yn Llanbedr, gan yr hon a'i theulu y cafodd bob gofal a thynerwch hyd y diwedd. Nid oedd ei hiechyd yn gryf er's blynyddau, ond byr fu ei chystudd olaf. Gadawodd mewn galar ar ei hol, heblaw ei merch a'i mab-yng-nghyfraith, amryw wyrion, tair chwaer, a nifer liosog o berthynasau. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Capelygroes, dydd Iau canlynol, pryd y talwyd iddi'r gymwynas olaf gan dorf liosog. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. D. T. Alban, M.A., y ficer; pregethwyd yn y Capel gan Weinidog y lle, a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. T. Oswald Williams, B.A.

AWST 21, bu farw Mrs. Elizabeth Griffiths, 5 Greenfield Terrace, Llandilo, gynt o Rydderchlwyd, Cellan, ar ol cystudd blin. Gwraig siriol a charedig ydoedd ar bob amgylchiad, ac yr oedd iddi air da gan bawb. Nid oedd wedi mwynhau iechyd cryf er's blynyddoedd bellach, ond daeth y diwedd ar rybudd byr, gan adael priod i wylo'n unig, ynghyd a brawd a thair chwaer. Y dydd Iau canlynol dygwyd ei gweddillion marwol yn ol, a gosodwyd hwy i orwedd yn naear hen fynwent Caeronen, ac hyd y diwedd yr oedd i Gaeronen le cynnes yn ei chalon. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan Offeiriad y Plwyf, ac yn y Capel ac ar lan y bedd gan y Parchn. T. O. Williams, R. C. Jones, J. E. Jones (Capel Erw), a J. N. Evans (ficer Plwyf Cellan). Traddodir ei phregeth goffa yng Nghaeronen gan y Gweinidog.

AWST 28, yn 5 mlwydd oed, Evelyn, merch fechan Mr. a Mrs. James Evans, Cartref, Alltyblacca. Cystudd byr a gafodd yr ymadawedig—dim ond ychydig ddyddiau. Er mor ieuanc, yr oedd wedi dechreu mynychu Ysgol Sul Alltyblacca, ac amlygodd aelodau yr Ysgol Sul eu hanwyldeb tuag ati drwy roddi *wreath* brydferth ar ei bedd. Profedigaeth lem yw un fel hon, a dymunwn nodded y Nef dros y tad a'r fam, a'r ddau frawd bychan, sydd mewn galar mawr ar ol un mor anwyl. Claddwyd y Sadwrn canlynol ym mynwent Alltyblacca. Gwasanaethwyd gan y Parch. L. Williams.

MEDI 1, yn 66 mlwydd oed, Mr. Thomas Rees, Maesymeillion, Llandyssul. Gwr tawel, distaw a mwyn ydoedd yr ymadawedig. Dioddefodd gystudd caled am flynyddoedd

yn ddirwgnach. Cydymdeimlir yn fawr a'i frawd sydd wedi ei adael yn unig ar ei ol. Claddwyd yr hyn oedd farwol o honno y dydd Mercher dilynol, ym Mhantydefaid, a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins, yn absenoldeb y Gweinidog.

MANION AC HANESION.

LLWYNRHYDOWEN. — *Croesawu Milwyr.* — Nos Wener, Awst 23, cynhaliwyd cyngherdd yn yr Hen Gapel i estyn croesaw adref i Preifat Alfred Jones, gynt o Pantstrimon, yr hwn sydd yn y fyddin oddiar Medi, 1914. Mae Alfred Jones yn adnabyddus iawn yn yr ardal hon gan ei fod wedi treulio blynyddoedd lawer ar wasanaeth yn Pantstrimon a lleoedd eraill gerllaw, ac yr oedd pawb yn falch ei weld adref ar dro. Mae wedi gwasanaethu fel milwr yn yr Aifft, Palestina, a Ffrainc. Y cadeirydd ar y noson uchod oedd Dr. Jones, Llanybyther.—Nos Lun, Awst 26, cynhaliwyd yma gyfarfod arall, o dan lywyddiaeth Mr. Thomas Lloyd, Pwllau'rbryn, i groesawu Preifat Joshua Evans, Brynheulog, Llanarth, mab ieuengaf Mr. David Evans, Ffynonllewelyn. Yr oedd y Capel yn orlawn. Mae yntau wedi gweld llawer o wasanaeth yn yr Aifft, Palestina, a Ffrainc, er hynny i gyd edrycha yn rhagorol, ac yr oedd ei wyneb, fel arfer, yn wên i gyd. Cafodd y ddau swm dda o arian fel arwydd o barch a theimladau da eu cyfeillion tuag attynt. Mae'r ddau erbyn hyn yn ol yn Ffrainc. Y Nef a'u cadwo.

CAMSYNIAD PWYSIG. — "Y mae Orthodoxy wedi gwneuthur y camsyniad hwn,—wedi pregethu Iesu heb un cysylltiad byw. Y mae ei chenadwri wedi ymwneud â phersonoliaeth nad oes iddo un berthynas dealladwy a bywyd dyn. Y mae'n eithaf da i ddweyd fod ei yspryd yn trigo ynom, ond yr hyn ydym ni am weld yw yr un yspryd ymdrechgar dros ddaioni ynom ni ag oedd ynddo ef. I mi nid oes un ystyr i Grist hanes ar wahan i genadwri y Crist mewnol. Y mae'n angenrheidiol, i'm meddwl i, fod yr holl bethau hynny sydd yn tueddu i'w symud ef oddiwrthym, gael eu taflu i ffwrdd. Nid yw'r syniad ein bod i gael ein "hachub" gan berson oedd yn byw ddwy fil o flynyddau'n ol ddim fel pe byddai yn gafaelu ym mywyd pobl yr oes hon. Ond os cychwynwn oddiwrth ein hymwybyddiaeth ein hunaln, ein teimlad ein hunain o ddyledswydd, ein sylweddoliad ein hunain o'r hunan ynom ni, eto nid ni ein hunain, ond yr hunan tragwyddol, byddwn yn rhoddi i'r dyn presenol syniad ar yr hwn y gall adeiladu ffydd fyw." —Y Parch. H. S. MCELELLAND, B.A., B.D. (olynydd y Parch. JOHN HUNTER, D.D.).

CONGL YR AWEN.

DIOLCH AM Y CYNHAUAF.

Diolch iti, Dad trugarog,
Am Dy wenau ar ein gwlad,
Am gynhauaf llawn, toreithiog,
Teilwng ydwyt o fawrhad ;
Haul a gwlaw, a gwlith bendithiol,
Ac awelon mwyn eu dawn,
Roddaist, o Dy law gynhaliol,
I addfedu'r egyn grawn.

Diolch am Dy wenau hyfryd,
Nefol wleddoedd, dwyfol ryw ;
Porthaist ni â bara'r bywyd,
Llonaist ni âg afon Duw !

Taenaist drosom fraich D'amddiffyn,
Cedwaist rhagom newyn llym ;
Tystia'n profiad drwy y flwyddyn
Na fu arnom eisieu dim.

Mawl a bri ro'wn iti, Arglwydd,
Ar bereiddiaf dyner dant,
'R hwn sy'n gwisgo blodau'r maesydd
A ofalodd am Ei blant ;
Derbyn heddyw ein anrhegion,
Am Dy roddion hael di-ri';
Blaenffrwyth bywyd pur, o eigion
Calon lawen, ro'wn i Ti !

Y Parch. E. J. PRITCHARD *(Glan Dyfi)*.

COLOFN Y GOLYGYDD.

CYFAILL.—Gwnaethom reol yn agos ugain mlynedd yn ol, na fuasem yn cofnodi yr un briodas gafodd ei gweinyddu yn Swyddfa'r Cofrestrydd. Y mae priodas mor gysegredig ag unrhyw amgylchiad awn iddo, a chredwn fod awyrgylch y capel neu'r eglwys yn foddion i ddifrifoli'r meddwl, a'i waredu o bob ysgafnder a byrbwylldra.

B. D.—Diolch am ein cofio yng nghanol eich prysurdeb, a da gennym ddeall eich bod eto wedi gwella o'ch afiechyd. Nid oes dim mor dderbyniol a dyddorol na'ch ysgrifau yn desgrifio bywyd y milwr.

TALIESIN M. Yr ydych yn credu y dylai fod gan Undodiaid rywbeth awdurdodol ar bynciau ffydd. Pwy sydd i fod yn awdurdod, a phwy sydd yn barod i'w gydnabod ? Nid oes gennym ni neb i gymeryd lle'r Pab, ac ni fyddai neb o honnom yn barod i ddweyd " Ie " i'w osodiadau heb ein hargyhoeddi yn gyntaf. Ein rheol yw, " Rhydd i bob meddwl ei farn, &c."

W. J. J.—Nid yw Undodiaid yn proffesu bod yn unfryd unfarn ar bynciau diwinyddiaeth a wahaniaethant ar bwnc y Bedd Gwag. Cred rhai yn adgyfodiad y corff, tra mae eraill yn amheu. Mae trydydd dosparth a ddywedant na wyddant ddim am y mater. Y mae'r tri dosparth, fodd bynnag, yn credu mewn anfarwoldeb, a dyna sydd yn bwysig. Darllenwch yr ateb i Taliesin M.

D. JONES.—Mae'r hen dderwen yr ordeiniwyd y Parch. D. Davis, Castellhywel dani, yn hysbys ddigon ; ond nid yw mor hysbys, i'w gydfyfyriwr, y Parch. John Davies, Marylebone, Llundain, gael ei ordeinio yno yr un pryd, ac i'r Parch. Samuel Davies, Merthyr, a'r Parch. D. Thomas, Llanedi, wasanaethu. Testun Mr. Davies oedd Ezec. 3 : 17.

AT R. J. J., D. E., T. O. W., J. I. J. Diolch am eich ysgrifau a'ch cefnogaeth. Moes mwy.

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

Modern Handbooks of Religion

Cr. 8vo. 256 pages. Half-a-Crown each net.

Volumes now ready.

Religion as affected by Modern Science and Philosophy. By Stanley A. Mellor, M.A., Ph.D.

Religion in Social and National Life. By H. D. Roberts.

The New Testament in the Light of Modern Knowledge. By H. Mc Lachlan, M.A., B.D.

Communion of Man with God. By R. Nicol Cross. M.A.

Jesus and Christianity in the Twentieth Century. By Alfred Hall, M.A.

The Revelation of God in Nature and Man. By Edgar Thackray, M.A., Ph.D.

The Divine Element in Art and Literature. By W. L. Schroeder, M.A.

Eternal Life Here and Hereafter. By Sydney H. Mellone, M.A., D.Sc.

THE LINDSEY PRESS. 5, Essex St., Strand, London, W.C. 2.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

Fruit Trees, Roses and Shrubs.

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s.; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers - - -

& Provender Millers, - -

Merchants, - - - -

Wholesale Grocers, &c. &c.

The London City and Midland Bank Limited.

— ESTABLISHED 1836. —

Subscribed Capital .. £24,906,432. Paid up Capital .. £5,188,840.

Reserve Fund .. £4,342,826.

LIABILITIES AND ASSETS, 31st DECEMBER, 1917.

	£	s.	d.
To Capital Paid up, viz :—			
£2 10s. 0d. per Share on 2,075,536 Shares of £12 each ..	5,188,840	0	0
,, Reserve Fund	4,342,826	0	0
,, Dividend payable on 1st February, 1918	350,246	14	9
,, Balance of Profit and Loss Account as below	733,785	5	8
	10,615,697	19	8
,, Current, Deposit & other Accounts	220,551,768	9	5
,, Acceptances on account of Customers	8,826,865	17	6

	£	s.	d.
By Cash in hand (including Gold Coin £7,000,000) and Cash at Bank of England	44,110,353	13	10
,, Money at Call and at Short Notice	31,003,560	9	2
,, Investments :—			
War Loans, at cost (of which £408,418 10s. is lodged for Public and other Accounts) and other British Government Securities ..	33,116,534	13	6
Stocks, Guaranteed by the British Government, India Stocks & Indian Railway Debentures	181,789	10	0
British Railway Debenture and Preference Stocks, British Corporation Stocks ..	1,774,673	4	2
Colonial and Foreign Government Stocks & Bonds	660,352	18	0
Sundry Investment	521,463	5	10
,, Bills of Exchange	35,052,991	17	10
	146,421,719	12	4
,, Advances on Current and other Accounts ..	68,516,358	1	9
,, Advances on War Loans	12,645,589	9	0
,, Liabilities of Customers for Acceptances ..	8,826,865	17	6
,, Bank Premises, at Head Office and Branches ..	2,837,210	6	0
,, Belfast Bank Shares :—			
49,688 £12 10 0 Old Shares £2 10 0 paid			
148,204 £12 10 0 New Shares £2 10 0 paid			
Cost £1,225,908 0 0			
Less part Premium on Shares issued .. 473,269 0 0			
	752,639	0	0